

**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD YN  
YSGOL LLANDDOGED NOS FAWRTH, EBRILL, 26ain 2022**

**PRESENNOL**

Cyng. Arwel L. Jones (Cadeirydd), Cyng. John Owen, Cyng Nerys Dobson, Cyng. Hefin Martin,

Cyng. Alun Morris, Cyng. Dylan Jones, Cyng. Anwen Jones, Cyng Austin Roberts, Delyth Algieri (clerc).

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Eifion Williams,

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyngor cymuned i'r cyfarfod.

**CADARNHAU'R COFNODION**

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 27ain o Mawrth, 2022.

**MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**

Dau eitem cynnal a chadw angen ei gyfeirio eto at yr Adran Priffyrdd :-

- 1) Twll ar y Ffordd Efail Uchaf ar y tro wrth yr Eglwys Llanddoged.
- 2) Tyllau yn y ffordd ar y tro fyny allt yr Abbey rhwng Wigfa a Ty'r Ysgol Maenan.

**ETHOLIADAU**

Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi derbyn gwybodaeth gan yr Adran Etholiadau na fydd etholiad ar gyfer y Cynghorwyr cymuned gan fod dim ymgeisydd arall wedi datgan diddordeb yn y seddi. Bydd y clerc yn rhoi y daflen 'Hysbysiad am Etholiad Diwrthwynebiad' i fyny ar hysbysfwrdd Llanddoged a Maenan.

**HYSBYSFWRDD MAENAN**

Nododd y clerc ei bod yn disgwyl am amcan bris gan Mr Elwyn Williams contractwr lleol am drwsio y bwrdd yr hysbysfwrdd yn Maenan,

**CYNLLUNIO**

**1) Cyfeirnod:** 0/49561 Sara Wreglesworth - storfa/ sied amaethyddol newydd (1) ac estyniad (1) i'r uned amaethyddol bresennol ar y tir wrth ymyl Ffrith Uchaf Ffrith Ucha Ffordd , Llanddoged Llanrwst LL26 0LQ .

Trafodwyd y cais cynllunio uchod a phasiwyd fod gan Cyngor ddim gwrthwynebiad

**2) Cyfeirnod:** 0/49573 Helen Owen -Cael gwared ar ystafell wydr llawr cyntaf presennol ac adeiladu estyniad carreg Hafan Glyd 4 Groesffordd Llanddoged, Llanrwst Conwy LL26 0UA

Cyn trafod y cais cynllunio uchod nododd Cyng. Nerys Dobson ei bod yn 'Datgan Diddordeb' yn y cais cynllunio a gadawodd yr ystafell ar ol arwyddo y cofrestr datgan diddordeb.

Trafodwyd gweddill aelodau y cyngor y cais a phasiwyd fod dim gwrthwynebiad.

Dychwelodd Cyng. Nerys Dobson i'r cyfarfod.

### **CYNNAL A CHADW**

- 1) Twll y ffordd wrth yr Eglwys ar Ffordd Efail Uchaf, Llanddoged.
- 2) Tyllau yn y ffordd ar y tro fyny allt yr Abbey rhwng Wigfa a Ty'r Ysgol Maenan.
- 3) Arwydd wedi disgyn i lawr eto ' Anaddas i Gerbydau Trwm' wrth Groesffordd Bryn Glas, Llanddoged.
- 4) Arwydd yn cyfeirio at 'Langernyw' wedi dod i lawr ar groesffordd Ffirth Ucha, Maenan(B5113)
  
- 5) Eithin angen cael ei docio yn ol wrth y 'railings' gwyn Ffordd B5113 ar gyffordd y ffordd i droi am Llanddoged.
- 6) Cerbyd wedi malu y clawdd ar y Ffordd rhwng Tyddyn Frencher ar y tro Bryn Rhydd Maenan.
- 7) Angen diweddariad gan yr Adran ERF ar :-
  - a) Twll wedi sigo yn y ffordd wrth Rhiwdafnau, Maenan.
  - b) Angen symud arwydd 'Anaddas i Gerbydau Trwm' i ochr arall y ffordd ar groesffordd y Ffordd wrth Ty'r Ysgol Maenan.

### **UNRHYW FATER ARALL**

#### **DIOLCHIADAU**

Diolchodd y Cadeirydd ar ran holl aelodau y Cyngor Cymuned i Gynghorydd Austin Roberts ein Cynghorydd Sir am ei wasanaeth dros y blynyddoedd fel Cynghorydd Sir dros ardal Llanddoged a Maenan.

#### **CYLLID**

Cyfrif Cyfredol - £3,278.82

Cyfrif Cadw - £2,976.19

Arwyddwyd (Cadeirydd) ..... Dyddiad .....